Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# **Ymchwiliad Prosesu Bwyd**

Adroddiad ar Ymateb Llywodraeth Cymru i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA) ei adroddiad, 'Cywain y cynhaeaf: Cefnogi diwydiant prosesu bwyd Cymru', ar 20 Ionawr 2026 gyda chwe argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ..... **3**

**Ymateb i’r chwech o argymhellion** ..... **4**

Argymhelliad 1 ..... 4

Argymhelliad 2 ..... 6

Argymhelliad 3 ..... 7

Argymhelliad 4 ..... 8

Argymhelliad 5 ..... 9

Argymhelliad 6 ..... 13

# Cyflwyniad

Dechreuodd y Pwyllgor ei Ymchwiliad i Brosesu Bwyd ar 8 Mai 2025, gan ystyried y meysydd canlynol yn benodol o dan Gylch Gorchwyl yr Ymchwiliad:

- Perfformiad Llywodraeth Cymru o ran cyflawni yn erbyn yr amcanion yn ei Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod.
- A yw'r amcanion yn y Weledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yn parhau i fod yn addas i'r diben neu a ddylid eu hadolygu.
- Yr effaith y mae gostyngiad yn nifer y da byw yn ei chael ar allu'r sector prosesu i ychwanegu gwerth at gynnyrch Cymru.
- Yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi'r sector prosesu ymhellach i gynyddu gwerth ychwanegol ar gyfer cynhyrchion bwyd yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer y sectorau cig coch, llaeth a garddwriaeth; ac
- Y rhwystrau i gynyddu faint o fwyd sy'n cael ei brosesu yng Nghymru sy'n cael ei gaffael gan y sector cyhoeddus.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd hyn, gydag argymhelliad ychwanegol yn ymwneud â bwyd môr yn dilyn tystiolaeth rhanddeiliaid.

Rydym yn cydnabod gwaith pwysig y Pwyllgor yn y maes hwn ac yn amlinellu isod ein hymateb i'w argymhellion.

# Ymateb i'r chwech o argymhellion

## Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gydlynu ei dull o ran y system fwyd drwy sicrhau bod polisïau'n gydgysylltiedig, ac yn ategu ei gilydd. Rhaid i hyn gynnwys sicrhau bod y sector prosesu bwyd yn cael ei chefnogi i helpu busnesau i dyfu, a sicrhau y gall darparwyr Cymru wasanaethu marchnad Cymru. I wneud hyn, rhaid iddynt greu strategaeth gyffredinol a chyfannol ar gyfer y system fwyd gyfan a gynlluniwyd i gefnogi amcanion y Weledigaeth ac alinio polisi bwyd y Llywodraeth, hyrwyddo'r sector prosesu bwyd, a blaenoriaethu cynaliadwyedd a diogelwch bwyd.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth bresennol Cymru yn cynnal dull cydgysylltiedig, system gyfan ar draws ei pholisïau presennol. Nid ydym yn cytuno bod angen creu "strategaeth gyffredinol a chyfannol" ychwanegol a allai arwain at ddyblygu a gorgyffwrdd â pholisïau presennol, neu wyro i ffwrdd o'r blaenoriaethau polisi presennol. Mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd unrhyw benderfyniadau ar hyn yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd dull cydlynol o ymdrin â'r system fwyd.  Mae'r holl bolisïau presennol wedi'u cynllunio i ategu ei gilydd, ac mae Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bolisïau gyd-fynd â nodau llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy y Ddeddf.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu pecyn cydgysylltiedig o gymorth i weithgynhyrchwyr bwyd a diod drwy gynnig Bwyd a Diod Cymru, sy'n dwyn ynghyd cynaliadwyedd, gwydnwch o ran yr hinsawdd, a chyngor technegol yn ogystal â chefnogi twf busnes. Mae hyn yn sail i ddull system gyfan trwy helpu proseswyr i ystyried y gadwyn gyflenwi ehangach, gwella perfformiad amgylcheddol, cryfhau gwydnwch i risgiau o ran yr hinsawdd, a pharhau i fod yn gystadleuol, gan gyd-fynd ag amcanion ehangach o ran diogeledd bwyd a chynaliadwyedd.

Cefnogir dull cydgysylltiedig mewn perthynas â chynaliadwyedd y system fwyd drwy wasanaethau fel y cynnig adrodd carbon am ddim (Peilot Lleihau Carbon), sy'n darparu cymorth cynghori technegol wedi'i ariannu i fusnesau bwyd a diod. Mae hyn yn galluogi busnesau i sefydlu llinell sylfaen o ran carbon, nodi meysydd

trwm o ran allyriadau, a datblygu cynlluniau cadarn ar gyfer lleihau carbon gyda chamau gweithredu clir i leihau allyriadau ar draws prosesu, pecynwaith a dosbarthu.

O fis Ebrill 2026, bydd y Gwasanaeth Diogeledd Bwyd â Gwydnwch i Newid Hinsawdd yn sicrhau bod gan broseswyr a gweithgynhyrchwyr bwyd fynediad at yr ymchwil ddiweddaraf ar addasu a gwydnwch. Bydd y gwasanaeth hwn yn cefnogi busnesau i dyfu'n gynaliadwy ac yn cyfrannu tuag at gryfhau diogeledd bwyd yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r gwaith hirdymor hwn, rydym yn bwrw ymlaen hefyd â rhaglen ehangach ar risgiau bwyd sy'n gysylltiedig ag argyfyngau sy'n cynnwys ein rôl yn Fframwaith Gwydnwch Cymru a'n hymgysylltiad ehangach â phartneriaid ar wendidau yn y gadwyn gyflenwi a pharodrwydd am argyfwng.

Mae mecanweithiau allweddol sy'n cefnogi dull cydgysylltiedig, system gyfan yn cynnwys y canlynol:

- Mae ein Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yn darparu fframwaith strategol ar gyfer y sector, gan gymryd dull system gyfan o ddiwallu anghenion eang busnesau bwyd a diod. Mae'n cryfhau gwydnwch busnes trwy weithredu cydgysylltiedig ar gynaliadwyedd, cynhyrchiant a sgiliau, a gyflwynir mewn cydweithrediad â'r diwydiant, y llywodraeth a'r byd academaidd er mwyn sicrhau cydlyniant ar draws y gadwyn gyflenwi. Er mwyn cefnogi'r broses o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a chynyddu gwydnwch bwyd, mae Strategaeth Bwyd Cymunedol, a Chynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn ategu uchelgais 'y Weledigaeth'.

- Sefydlodd y Prif Weinidog y Fforwm Bwyd ym mis Mehefin 2023 er mwyn gwella prosesau cydgysylltu a goruchwylio gwaith sy'n gysylltiedig â bwyd ar draws y llywodraeth. Mae'n dwyn ynghyd swyddogion o bortffolios gan gynnwys Amaethyddiaeth, Addysg, Iechyd, Pysgodfeydd, yr Economi Gylchol, yr Economi Sylfaenol, Sgiliau, Trechu Tlodi a Gwaith Teg. Mae wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu gan gynnwys y Strategaeth Bwyd Gymunedol (a gyhoeddwyd 29 Ebrill 2025), drwy wella cydgysylltu a chyfathrebu ar draws adrannau.

- Cyhoeddwyd Bwyd o Bwys: Cymru ar 22 Gorffennaf 2024 i ddarparu crynodeb o bolisïau sy'n gysylltiedig â bwyd ar draws ein portffolios ar gyfer rhanddeiliaid. Mae'n dangos sut mae'r polisïau hyn yn cysylltu

drwy amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, sy'n gwneud y mwyaf o'n cyfraniadau tuag at saith nod llesiant cenedlaethol hirdymor Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r cynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2025 i 2027 yn cefnogi'r sector prosesu bwyd hefyd drwy ailfformiwleiddio, arloesi cynhyrchion iachach, a symud cymhellion manwerthu i ffwrdd o gynhyrchion sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr, er budd cynnyrch bwyd iachach, gan gynnwys eitemau a gyflenwir drwy gadwyni cyflenwi byr. Mae hyn yn darparu eglurder rheoleiddiol ar gyflwyno a hyrwyddo cynnyrch ac yn ymgorffori proseswyr o fewn dull system gyfan o ymdrin ag iechyd y boblogaeth.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ystyried sut y gall gefnogi lladd-dai a chynhyrchwyr bwyd Cymru i sicrhau y gellir gweini cig Cymru sy'n gymharol garbon isel ar blatiau Cymru, er mwyn osgoi dadstocio ffermydd Cymru, ond mewnforio cig o ansawdd is, llesiant is, a charbon uwch.  Dylent roi cryn ystyriaeth i ddwysedd stocio ffermydd da byw Cymru, ac ystyried cyflwyno cynllun 'y pen' tebyg i Gynllun Cymorth Gwartheg Sugno yr Alban.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyflenwad sefydlog a digonol o dda byw yn hanfodol i hyfywedd y sectorau prosesu cig coch a llaeth yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod poblogaethau gwartheg eidion a defaid domestig ledled y DU wedi bod yn dirywio dros yr ugain mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, er bod y boblogaeth gwartheg eidion a defaid wedi lleihau, mae cynhyrchiant wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2008.

Bwyd yw un o sectorau sylfaenol ein heconomi ac mae ein hinsawdd yn fwy addas na llawer o rannau eraill o'r byd i gynhyrchu cig coch cynaliadwy, o ansawdd uchel. Mae ein Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn ffordd sydd ag ôl troed carbon isel. Bydd hyn yn ein galluogi i ddod yn un o'r gwledydd gorau yn y byd ar gyfer ffermio cynaliadwy, gan gyflawni ein rhwymedigaethau byd-eang heb symud cynhyrchiant bwyd i wledydd â safonau is.

Mae gwella effeithlonrwydd ffermydd a chroesawu arloesedd gwyddonol - gan fynd ati'r un pryd i sefydlogi niferoedd a chynnal y gallu i gynhyrchu bwyd

cynaliadwy o ansawdd uchel gydag anifeiliaid iachach a mwy cynhyrchiol - yn un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru, a'r prif ysgogiad yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Trwy'r haen opsiynol, nod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yw cymell effeithlonrwydd a chynhyrchiant ffermydd i fabwysiadu arferion mwy effeithiol i leihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a gwella cynhyrchiant y sector cig eidion.

Bydd y cyfnod cyntaf yn ceisio cyflwyno gweithredoedd ar gyfer y sector cig eidion, sef lleihau Oedran Lladd a chyflwyno Cofrestru Teirw. Mae cyfnod dau yn ceisio parhad mathau eraill o gymorth wedi'i dargedu  er mwyn cynyddu effeithlonrwydd.

Bydd y weithred opsiynol ar gyfer cynhyrchu cynaliadwy yn cefnogi holl amcanion y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy gyda ffocws ar gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

Rydym yn cynnig cyfres o weithredoedd sy'n canolbwyntio ar gefnogi mentrau i fod yn fwy effeithlon a chynaliadwy, gan fynd ati'r un pryd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ac adeiladu gwydnwch.

Goblygiadau Ariannol - mae gwaith hwn yn mynd rhagddo ac fe'i hariennir gyda chyllidebau presennol.

## Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu targed uchelgeisiol Cynghrair Polisi Bwyd Cymru, sef bod 75% o lysiau a fwyteir yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yma, ac yn gynaliadwy. I gyflawni hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn busnesau garddwriaethol, cefnogi datblygiad sgiliau garddwriaethol a gwneud ymdrech benodol i wella seilwaith prosesu bwyd garddwriaethol.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu uchelgais  i dyfu ein sector garddwriaethol. Fodd bynnag, efallai na fydd targed o sicrhau bod  75% o'r llysiau sy'n cael eu bwyta yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yma yn gynaliadwy yn addas nac yn gyraeddadwy oherwydd natur dymhorol tyfu llysiau yng Nghymru.

Rydym yn cytuno'n gryf â'r amcan o gynyddu cynhyrchiant cynaliadwy llysiau yng Nghymru drwy bolisïau cydgysylltiedig er mwyn gwella proffidioldeb, effeithlonrwydd ac effaith amgylcheddol y sector garddwriaeth..

Rydym wedi bod yn cydweithio â rhanddeiliaid y sector er mwyn gwella canllawiau cynllunio ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru wrth ymdrin â cheisiadau gan fusnesau garddwriaethol. Dylai hyn wella dynameg y busnesau hyn, gan ganiatáu iddynt wneud gwelliannau effeithlonrwydd yn gyflymach. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â chynlluniau grantiau cyfalaf y mae Llywodraeth Cymru wedi'u datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf i helpu'r sector. Mae'r Cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth a'r Cynllun Garddwriaeth ac Arallgyfeirio Amaethyddol wedi galluogi tyfwyr i fuddsoddi mewn offer i gynyddu cynhyrchiant cynaliadwy ffrwythau a llysiau.

Mae gwaith gwasanaeth cynghori Cyswllt Ffermio wedi bod yn allweddol wrth hybu twf yn y sector garddwriaethol. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cyngor a hyfforddiant cynhwysfawr i ffermwyr er mwyn gwella perfformiad busnes, yn ogystal â darparu fforwm gwerthfawr ar gyfer dysgu gan gymheiriaid a chael mewnwelediad 'r diwydiant. Mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd o 52% yn nifer y mentrau garddwriaethol sydd wedi'u cofrestru gydag ef ers 2023.

Gall Cyswllt Ffermio gynghori tyfwyr ar fynediad i'r farchnad. Wrth gynyddu cyfran y llysiau cartref sy'n cael eu bwyta yng Nghymru, mae angen i ni fod yn ymwybodol o sicrhau bod y galw yno i gwrdd â'r cyflenwad. Mae gan gaffael cyhoeddus rôl yn hyn o beth, gyda phrosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn llwyddiant nodedig o ran cynyddu'r defnydd domestig. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno parhau i gefnogi'r sector i nodi'r cyfleoedd hyn yn y farchnad ac annog twf cynaliadwy heb ystumio'r farchnad a'r risg bosibl i fusnesau yn sgil gorgynhyrchu.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi unrhyw waith y mae wedi'i wneud i gefnogi diwydiant prosesu bwyd môr o Gymru ac i annog bwyta bwyd y môr o Gymru ar lefel ddomestig.

Ymateb: Derbyn

Nod Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru yw sicrhau twf cynaliadwy yn y sector pysgodfeydd a dyframaethu i gefnogi cymunedau arfordirol i ffynnu. Nod y cynllun yw creu cyfleoedd yn yr amgylchedd morol, y cymunedau arfordirol a sicrhau bwyd môr cynaliadwy ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, o gynhyrchu i brosesu a marchnata. Mae rowndiau blaenorol y cyllid grant wedi ariannu eitemau prosesu fel peiriannau iâ, systemau pwyso ac offer hybu effeithlonrwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar reoli’r stoc pysgod yn gynaliadwy drwy Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd. Mae Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn un o ofynion Deddf Pysgodfeydd 2020 a Chyd-ddatganiad y DU ar Bysgodfeydd. Mae Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn offeryn allweddol i gefnogi pysgodfa gynaliadwy a gwydn a gaiff ei rheoli'n dda. Bydd cadw stociau o fewn terfynau cynaliadwy yn sicrhau bod ein cymunedau pysgota, y gadwyn gyflenwi bwyd môr a'r gymdeithas ehangach yn parhau i gael budd o'n hasedau naturiol, nawr ac yn y dyfodol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Rydym wedi comisiynu astudiaeth economaidd-gymdeithasol o bysgodfeydd Cymru, gan gynnwys proseswyr bwyd môr, i lywio penderfyniadau ar gymorth a pholisïau’r dyfodol. Mae'r astudiaeth yn casglu data gan broseswyr, cyfanwerthwyr, a chymunedau arfordirol er mwyn llunio cymorth wedi'i dargedu i raddau mwy a sicrhau gwydnwch y sector.

Mae gan bob awdurdod lleol a/neu gorff llywodraethu ddisgresiwn dros ddyluniad bwydlenni a'r broses o ddarparu prydau o fewn y paramedrau a nodir yn y Rheoliadau Bwyta'n Iach a'r Canllawiau Statudol cysylltiedig. Gosodwyd Rheoliadau Diwygiedig, fel y maent yn gymwys i bob ysgol feithrin ac ysgol gynradd a gynhelir, gerbron y Senedd ar 17 Rhagfyr 2025 a disgwylir iddynt ddod i rym ar 31 Hydref 2026. Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod prydau ysgol yn ystyried argymhellion deietegol diweddaraf y DU ac yn darparu opsiynau iachach, cytbwys sy'n cefnogi llesiant hirdymor.

Mae'r Rheoliadau diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol rhoi pysgod ar fwydlen ysgol unwaith bob pedair wythnos. Mae'r Canllawiau Statudol cysylltiedig yn hyrwyddo'r broses o gaffael pysgod o ffynonellau cynaliadwy.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r defnydd o fwyd o Gymru a gynhyrchir yn lleol mewn ysgolion ac wedi hybu twf mewn caffael lleol drwy'r rhaglen Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Cynradd a buddsoddiadau ehangach.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi gynllun strategol i sicrhau bod yna ddull "tîm Cymru" rhwng cynhyrchwyr, proseswyr, manwerthwyr, a lletygarwch a bod prosesu bwyd yn cael cefnogaeth gadarn a chaniatâd i chwarae ei rôl hanfodol yn yr economi sylfaenol. Fel rhan allweddol o'r gwaith hwn, dylid archwilio sut y gallant lenwi'r bwlch 'canol coll' mewn cynhyrchu bwyd yng Nghymru, ac annog ein microfusnesau rhagorol i dyfu.

Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai wneud y canlynol:

▪ Archwilio pa wersi y gellir eu dysgu o'r dull Gwyddelig a nodir yn Food Harvest 2020 ac o ddewis enillwyr.

▪ Datblygu rhaglenni i helpu busnesau prosesu bwyd i uwchsgilio eu gweithwyr, ac i ganiatáu i bobl ddysgu sgiliau prosesu bwyd arloesol neu rai nad ydynt yn cael eu defnyddio i raddau digonol, er mwyn llenwi bylchau ym marchnad prosesu bwyd Cymru;

▪ Adolygu'r seilwaith prosesu bwyd a gynigir ledled Cymru, nodi bylchau a llunio cynllun ar gyfer eu llenwi, er mwyn cryfhau cadwyni cyflenwi lleol a chynnal Gwerth Ychwanegol gros; ac

▪ Ystyried sut y gall fynd i'r afael â'r methiant yn y farchnad a berir gan brisiau eiddo cymharol is, sy'n ei gwneud hi'n anoddach i lawer o fusnesau Cymru gael mynediad at fenthyciadau yn erbyn buddsoddiad cyfalaf yn y sector prosesu bwyd.

Ymateb: Gwrthod

Gyda'i gilydd, mae'r cynnig Bwyd a Diod Cymru yn darparu pecyn strategol, system gyfan o gymorth sy'n cryfhau gallu prosesu bwyd a gwydnwch domestig. Mae hyn yn cynnwys gwella cynaliadwyedd, cefnogi cynhyrchiant ac arloesedd, a galluogi cydweithio ar draws cynhyrchwyr, proseswyr, manwerthwyr a lletygarwch – gan gyfrannu'n uniongyrchol tuag at ddull 'Tîm Cymru'.

Mae ein cymorth yn canolbwyntio ar y 'canol coll' drwy gysylltu busnesau bach a chanolig ag arbenigedd technegol wedi'i deilwra a chymorth gyda chynhyrchiant ac arloesedd drwy ganolfannau bwyd, partneriaid cyflenwi a rhwydweithiau clwstwr Cymru. Mae rhwydweithiau clwstwr fel y Clwstwr Cynaliadwyedd a'r cynnig o ran gwydnwch i newid yn yr hinsawdd yn hyrwyddo cydweithio, dysgu ar y cyd, a gwelliant parhaus.

Rydym yn darparu hyfforddiant ar y safle wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer busnesau prosesu a gweithgynhyrchu bwyd i adeiladu ymwybyddiaeth a gwydnwch o ran addasu i'r hinsawdd. Mae'r cymorth hwn ar gael i fusnesau o bob maint.

Mae'r Weledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yn darparu'r fframwaith strategol trosfwaol sy'n sail i gefnogaeth Llywodraeth Cymru i gydweithio rhwng y llywodraeth, diwydiant a'r byd academaidd, gan ymwreiddio prosesu bwyd yn yr economi sylfaenol.

O ran cyfeiriad y Pwyllgor at Food Harvest 2020, penderfyniad i Lywodraeth nesaf Cymru fydd cymorth busnes Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae ein model presennol ar gyfer cymorth busnes yn darparu cefnogaeth ymarferol ac ystwyth

wedi'i deilwra i anghenion pob busnes. Mae rhaglenni gan gynnwys Mentro i Lwyddo, Parod am Fuddsoddiad ac Uwchraddio yn cefnogi cwmnïau yng Nghymru ar wahanol gyfnodau aeddfedrwydd, gan gynnwys cwmnïau micro a chwmnïau bach sydd â photensial i dyfu i gael mynediad at fuddsoddiad, gwella cynhyrchiant, a gwneud penderfyniadau hirdymor ar sail gwybodaeth. Mae metrigau fel gwerth ychwanegol gros, enillion ar gyfalaf a ddefnyddir a swyddi a gynhyrchir yn olrhain perfformiad y sector.

Mae cynlluniau cyfalaf wedi'u targedu, gan gynnwys y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd yn cefnogi gwelliannau mewn perfformiad, cystadleurwydd, cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd. Er mwyn ymateb i alw defnyddwyr, rydym yn annog arallgyfeirio, ac yn nodi, gwasanaethu a manteisio ar farchnadoedd newydd, rhai sy’n dod i’r amlwg a rhai sy'n bodoli eisoes. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu buddsoddiadau cyfalaf ar gyfer offer prosesu, moderneiddio cyfleusterau, rhoi hwb i gynaliadwyedd, a chefnogi twf ar draws y sector a phrosiectau sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r buddsoddiadau hyn yn adeiladu seilwaith cynhyrchu mwy cynaliadwy ledled Cymru, gan gyd-fynd â nodau ehangach Llywodraeth Cymru o ran yr hinsawdd. Mae gwerthusiad annibynnol o gynlluniau blaenorol y sector bwyd a gyflwynwyd o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig yn dangos eu bod wedi denu £45 miliwn a mwy o fuddsoddiad na fyddai wedi digwydd fel arall, gan alluogi mwy o gapasiti, gwell effeithlonrwydd, a phenderfyniadau buddsoddi cynharach.

Mae ein Rhaglen Helix Genedlaethol yn gwneud Cymru'n wahanol drwy ddarparu cymorth arbenigol ledled Cymru. Mae'r cymorth hwn yn mynd drwy bedair canolfan fwyd sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd prosesau, datblygu cynnyrch newydd, ailfformiwleiddio, ac achredu. Mae ein rhaglen glwstwr yn cryfhau cydweithio, arloesi a gwydnwch y gadwyn gyflenwi, gyda 800 a mwy o fusnesau twf yn cymryd rhan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Cefnogir y broses o ddatblygu'r gweithlu drwy raglen Sgiliau Bwyd a Diod Cymru, gan gynnig diagnosteg, hyfforddiant wedi'i ariannu, a chymorth gweithlu wedi'i deilwra. Mae hyn yn cefnogi cynnydd gweithwyr presennol, yn mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau ac yn creu cyfleoedd gyrfa newydd yn y diwydiant. Ers mis Mawrth 2025, mae hysbysfwrdd swyddi'r sector wedi hysbysebu 1,600 a mwy o swyddi gwag, gan gryfhau'r cyflenwad llafur a denu talent newydd.

Mae ein Cynllun Manwerthu a Gwasanaeth Bwyd yn cefnogi'r diwydiant prosesu bwyd trwy wella mynediad i'r farchnad ac wedi llywio ein Rhaglenni Masnach Bwyd a Diod. Mae'r dull hwn wedi cynyddu cynnig Cymru ym marchnad ddomestig y DU ar gyfer manwerthu, gweini bwyd a lletygarwch. Rydym yn falch o'r partneriaethau cydweithredol hyn a ddatblygwyd o dan y brand 'Bwyd a Diod

Cymru' ac rydym wedi sicrhau cefnogaeth i gynnyrch o Gymru gan yr holl fanwerthwyr mawr a busnesau gweini bwyd.

Yn 2022, gwnaethom gynnal yr Adroddiad Archwilio Manwerthwyr Mawr cyntaf er mwyn nodi nifer y cynhyrchion o Gymru sy'n ymddangos mewn archfarchnadoedd a siopau mawr yng Nghymru. Gwnaeth ein hadolygiad diweddaraf yn Hydref 2024 ddatgelu bod nifer y cynhyrchion sy'n ymddangos wedi cynyddu 143% ers 2022. Ers 2024, rydym wedi cefnogi 70 a mwy o fusnesau yng Nghymru i gael mynediad i farchnadoedd newydd, gydag oddeutu 2,500 math o gynnyrch o Gymru wedi'u rhestru yng Nghymru a'r DU, sy'n werth £8 miliwn a mwy mewn gwerthiant. Rydym yn parhau i ymgysylltu â chyfanwerthwyr yng Nghymru a'r rhai sy'n gwasanaethu'r sector lletygarwch er mwyn cynyddu faint o gynnyrch o Gymru sydd ar fwydlenni.

Ym mis Chwefror 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd tua 4,400 o fusnesau lletygarwch yn gymwys i gael rhyddhad o 15% ar eu biliau ardrethi yn 2026-2027 i gefnogi busnesau lletygarwch drwy gyfnod o gostau cynyddol a newidiadau yn arferion defnyddwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu hyd at £8 miliwn ar gyfer y pecyn, gan ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'r gefnogaeth hon i letygarwch Bwyd a Diod yn ychwanegol at y gefnogaeth sylweddol sy'n bodoli eisoes. Mae dros hanner y tafarndai yng Nghymru eisoes yn elwa ar Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach, ac nid yw dros chwarter yn talu unrhyw ardrethi o gwbl. Mae rhyddhad parhaol Llywodraeth Cymru yn werth £250 miliwn bob blwyddyn.

Mae rhaglenni datblygu allforio a buddsoddi tramor yn cefnogi masnach ryngwladol drwy hyrwyddo bwyd a diod o Gymru i brynwyr, cyfanwerthwyr a dosbarthwyr i ddenu mewnfuddsoddiad, a chefnogi arallgyfeirio risg busnes, arloesi ac ansawdd swyddi. Mae ein rhaglen allforio wedi esblygu i ddarparu dull cam wrth gam, mwy strategol tuag at ddatblygu'r farchnad, gan ddarparu cefnogaeth effeithiol i farchnadoedd rhyngwladol allweddol. Mae broceriaeth Blas Cymru/Taste Wales yn creu cyfleoedd busnes i fusnesau Bwyd a Diod yn ddomestig ac yn rhyngwladol. Y llynedd, cafodd prynwyr masnach o fanwerthwyr blaenllaw y DU, gweithredwyr gwasanaeth bwyd, a phrynwyr byd-eang eu cynnwys mewn 2,700 a mwy o gyfarfodydd masnach. Mae'r cysylltiadau masnach pwysig newydd hyn eisoes wedi arwain at £45 miliwn a mwy mewn cyfleoedd busnes newydd. Yn y Sioe Frenhinol, mae Lolfa Busnes Masnach Bwyd a Diod Cymru yn helpu prynwyr ymhellach i ddod i wybod am gyflenwyr o Gymru.

Mae pob un o'r 22 o Bartneriaethau Bwyd Lleol ledled Cymru wedi derbyn cyllid grant sy'n ein rhoi ar y trywydd iawn i gyflawni'r ymrwymiad a gyhoeddwyd yn y Strategaeth Bwyd Gymunedol i ddarparu £2m a mwy o gymorth yn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r partneriaethau hyn yn cynllunio ac yn gweithredu eu

prosiectau bwyd eu hunain er mwyn targedu anghenion lleol a chreu cydweithrediadau ar draws rhanddeiliaid bwyd lleol allweddol. Mae'r gefnogaeth hon yn hanfodol ar gyfer cryfhau rhwydweithiau bwyd lleol ac ar gyfer sicrhau atebion bwyd a arweinir gan y gymuned. Mae hyd at £240,000 ar gael i Bartneriaethau Bwyd Lleol i gydweithio ar brosiectau mwy o ddiddordeb cyffredin. Er enghraifft, mae Bwyd Powys yn arwain prosiect sy'n cwmpasu'r Canolbarth a'r Gorllewin, gan gynnwys pedair Partneriaeth Bwyd Lleol i ddatblygu strategaeth arloesol yn ymwneud â gwydnwch bwyd yn ogystal â chyflwyno gweithgarwch er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r her hon ar lawr gwlad.

Mae gan 24 cynnyrch o Gymru Statws Dynodiad Daearyddol y DU gan gynnwys cig oen Cymru a chig eidion Cymru. Mae'r dynodiadau hyn yn angori prosesu yng Nghymru, yn cefnogi premiwm prisiau, yn cryfhau allforion ac yn helpu i gadw gwerth economaidd a swyddi medrus.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cytundeb SPS ac yn parhau i gydweithio â gweinyddiaethau eraill y DU er mwyn sicrhau trefniadau sy'n lleihau ffrithiant i gynhyrchwyr a phroseswyr bwyd Cymru tra'n cynnal bioddiogelwch cryf. Rydym yn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli ym mhob trafodaeth fasnach yn y DU, gan bwyso am ganlyniadau sy'n diogelu safonau uchel Cymru mewn iechyd a lles anifeiliaid, olrheiniadwyedd, yr amgylchedd a diogelwch bwyd. Rydym yn diogelu cystadleurwydd busnesau bwyd Cymru drwy bwysleisio'r angen i sicrhau tegwch—ni ddylai mewnforion a gynhyrchir i safonau is gael mantais economaidd annheg, ac ni ddylai cytundebau masnach newydd danseilio ein perthynas fasnachu hanfodol â'r UE.

Yn olaf, mae ein Rhaglen Mewnwelediad Marchnad yn darparu data i fusnesau bwyd a diod ar fanwerthu, nwyddau groser a thueddiadau y tu allan i'r cartref, gan gynorthwyo busnesau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a bod yn fwy cystadleuol.

Goblygiadau Ariannol – Dim

## Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ehangu cynlluniau llwyddiannus sy'n cefnogi caffael cyhoeddus ac integreiddio prynwyr y sector cyhoeddus i gadwyni cyflenwi lleol, er mwyn gwireddu amcanion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

Ymateb - Derbyn

Trwy ddyletswyddau statudol, fframweithiau polisi caffael, canllawiau caffael ymarferol, rhaglenni cymorth busnes, ac ymyriadau a arweinir gan dystiolaeth, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'n weithredol integreiddio prynwyr y sector cyhoeddus i gadwyni cyflenwi lleol.

Er enghraifft, rydym wedi ymrwymo'n gryf i gynyddu'r defnydd o fwyd o Gymru a gynhyrchir yn lleol mewn ysgolion, gan gydnabod ei werth maethol, addysgol ac economaidd. Drwy'r ymrwymiad Prydau Ysgol Am i holl blant Ysgolion Cynradd a buddsoddiad ehangach yn yr economi sylfaenol, mae Llywodraeth Cymru wedi hybu twf mewn defnyddio ffynonellau lleol, gyda lefelau caffael cyhoeddus bwyd o Gymru yn fwy na dyblu ers 2021 a chyfanwerthwyr Cymru yn nodi cynnydd o 173% yng ngwariant awdurdodau lleol ar gynnyrch o Gymru rhwng 2021 a 2024.

Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei wireddu drwy gydweithio ag awdurdodau lleol, cynhyrchwyr a chyfanwerthwyr i arallgyfeirio cadwyni cyflenwi, treialu dulliau arloesol fel y prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, ac ymgorffori egwyddorion caffael cynaliadwy sy'n byrhau cadwyni cyflenwi, lleihau milltiroedd bwyd a chefnogi tyfwyr, ffermwyr a gweithgynhyrchwyr Cymru.

At hynny, wrth gefnogi'r gwaith o weithredu'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion diwygiedig sy'n dod i rym ym mis Hydref, byddwn yn cydweithio ag awdurdodau lleol a chadwyn gyflenwi bwyd ysgolion Cymru i wneud y mwyaf o gyfleoedd i ddod o hyd i gynhyrchion lleol i'w rhoi ar blatiau ysgolion.

Mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn cynnwys ymrwymiad i gynyddu gwariant sector cyhoeddus Cymru ar fwyd sy'n tarddu o Gymru o leiaf 50% erbyn 2030. I'r graddau hyn, mae prosiectau bwyd a ariennir gan yr Economi Sylfaenol wedi cryfhau partneriaethau rhwng tyfwyr, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a chyfanwerthwyr, gan gynyddu'r cyflenwad o gynnyrch cynaliadwy o Gymru a gwella addysg a chaffael bwyd. Mae cefnogaeth i 52 o fusnesau bwyd yng Nghymru wedi helpu i gadw 1,119 o swyddi.

Fel yr amlygwyd yn ein Papur Tystiolaeth, rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu Rhan 3 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Mae hyn yn rhoi dyletswyddau caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol newydd ar awdurdodau contractio i fynd ar drywydd llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol wrth ymgymryd â chaffael. Daeth ymgynghoriad ar y Canllawiau Statudol drafft sydd eu hangen i gefnogi gweithredu'r Ddeddf i ben ar 10 Chwefror 2026. Bydd y Canllawiau Statudol yn helpu cyrff cyhoeddus sy'n dod o fewn cwmpas y Ddeddf i gyflawni eu dyletswyddau newydd i gaffael mewn modd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Bydd yn darparu arweiniad ymarferol ar gyflawni canlyniadau llesiant trwy gaffael. Byddwn yn cydweithio â chyrff cyhoeddus, partneriaid cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol caffael ac eraill i gefnogi prosesau gweithredu a chyflawni effeithiol.

Mae ein Peilot Lleihau Carbon yn cefnogi'n uniongyrchol ofynion caffael Llywodraeth Cymru drwy ddarparu dull ymarferol parod i gaffael i gyflenwyr ar gyfer mesur ac adrodd allyriadau carbon yn unol â WPPN 06/21, gan gynnwys allyriadau Cwmpas 1, 2 ac allyriadau allweddol Cwmpas 3.

Trwy'r peilot, cefnogir busnesau i gofnodi allyriadau gan ddefnyddio methodoleg gyson, archwiliadwy ac i ddatblygu cynlluniau lleihau carbon credadwy, gan gryfhau parodrwydd ar gyfer contractau mawr sector cyhoeddus a chyflawni Sero Net 2050.

Erbyn diwedd y cynllun peilot dwy flynedd, ein nod yw cefnogi bron i 140 o fusnesau gweithgynhyrchu bwyd a diod, ac o fis Ebrill 2026 ymlaen, bydd y dull hwn yn cael ei ymwreiddio mewn cynnig Gwasanaeth Cynaliadwyedd newydd ar gyfer y sector, gan gydgrynhoi prosesau adrodd carbon, y Clwstwr Cynaliadwyedd, gydag ymchwil a hyfforddiant ategol.

Goblygiadau Ariannol – Dim